Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

Hydref 2024

Ar 21 Hydref 2024, cyflwynwyd y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) yn y Senedd.

Ar 24 Medi 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 22 Hydref 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, ar amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, gan gytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 14 Chwefror 2025.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 4 Ebrill 2025, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.